**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref VG/0340/20

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 ASN

12 Hydref 2020

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref yn gofyn am eglurhad pellach o'r cynnydd mewn perthynas â'm pryderon am y darpariaethau ar y system gwybodaeth am ddyfeisiau meddygol yn y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol.

Fel y soniais yn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yr wythnos diwethaf, mae'r Bil yn fesur galluogi a bydd y ffordd y caiff ei weithredu yn cael ei phennu gan reoliadau nad ydynt wedi'u drafftio eto. Er nad oes amserlen ar gyfer y rheoliadau, caf ar ddeall deallaf ei bod yn annhebygol y bydd drafft ar gael i gyflwyno sylwadau arno tan ymhell ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'n debygol mai tua diwedd eleni fan cynharaf y bydd hyn.

Yn niffyg y rheoliadau drafft ac er mwyn peidio â gorfod dibynnu yn unig ar y sicrwydd yn llythyr yr Arglwydd Bethell dyddiedig 14 Medi y bydd "ystyriaethau penodol" y Llywodraethau Datganoledig yn cael eu hystyried wrth ddrafftio'r rheoliadau, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion nodi cyfres o egwyddorion eang a fyddai'n llywio'r rheoliadau mewn ffordd a fyddai'n dderbyniol i'r Llywodraethau Datganoledig ar y cyd ac yn sail i'n trafodaethau â'r Adran. Amgaeaf y rhestr sy'n cael ei hystyried ar hyn o bryd gan swyddogion yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Os caiff yr egwyddorion hyn yn eu cytuno gan y Llywodraethau Datganoledig eraill, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'u hadlewyrchu yn y rheoliadau credaf y byddent yn mynd i'r afael â'm pryderon i raddau helaeth. Ond mae'n ddyddiau cynnar ar y trafodaethau ar yr egwyddorion gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig s ac nid ydynt wedi'u rhannu â'r Adran eto.

Rwyf yn obeithiol y gallwn wneud rhywfaint o gynnydd gyda'r DHSC gan fod fy swyddogion o'r farn eu bod wedi dangos parodrwydd i gydweithio â ni a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar y rheoliadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pan fydd yn amlwg y gall y Llywodraethau Datganoledig gytuno ar linell gyffredin, ysgrifennaf eto at yr Arglwydd Bethell i ofyn iddo roi ystyriaeth frys i dderbyn yr egwyddorion a'u hymgorffori yn y rheoliadau, a hynny, gobeithio, cyn i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gwblhau ei adroddiad ar 22 Hydref.

Amgaeaf lythyr yr Arglwydd Bethell hefyd dyddiedig 14 Medi y gofynnwyd amdano.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services